# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**GAEAF 2025**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN SYLFAENOL**
**3010N10-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN SYLFAENOL**

**GAEAF 2025 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Gweld y Gorwel / Gêm**

**Gweld y Gorwel: prif bwyntiau cynnwys**

- Cerdd wedi ei lleoli mewn clinig rehab sydd yma. Mae'r claf yn byw bywyd diflas ac mae'r amser yn mynd heibio'n araf iawn yno. Mae wedi 'colli nabod' arno'i hun ac ar deulu a chyfeillion tra mae o yn y fan hon.

- Cyfeirir at y claf fel 'druggie' ac oherwydd patrwm caethiwus ei fywyd ar gyffuriau, mae bellach yn gorfod bodoli yn unig yn y clinig hwn er mwyn gwella o'i gyflwr. Sefyllfa 'hunanol' sydd wedi arwain at fod yn y clinig a phrofiad 'hunanol' hefyd yw'r gwella mewn unigrwydd.

- Mae cymdeithas yn labelu'r sawl sydd yn y clinig ac mae ei fywyd yn llanast fydd angen ei ailosod at ei gilydd drwy broses araf. Ond cynigir gobaith yn y trydydd englyn drwy'r 'cariad' sydd yn sbardun i'r claf wella. Yma y gwelwn y cysylltiad gyda theitl y gerdd. Yn sicr daw trobwynt gobeithiol yn fan hyn.

- Erbyn yr englyn clo, mae gobaith gwirioneddol o wella oherwydd y cynnwrf ynglŷn â chyfarfyddiad â'r ferch. Mae bywyd yn ymddangos yn felys unwaith eto a cheir cyferbyniad â'r diflastod a ddisgrifir yn yr englyn agoriadol.

**Gêm: prif bwyntiau cynnwys**

- Mae teitl y gerdd 'Gêm' yn dwyllodrus o syml ac efallai ei fod yn arwydd fod pethau sy'n ymddangos yn hwyl ac yn ysgafn yn gallu arwain at sefyllfa ddifrifol os na fyddwn yn ofalus.

- Mae'r unigolyn yma yn cau ei hun yn ei ystafell wely o'i wirfodd i chwarae gêm gyfrifiadurol. Nid yw'n dymuno cael cyswllt â'r byd ac mae'n fodlon ar ei ben ei hun yn ei ystafell.

- Gwna'r unigolyn gyfres o ddewisiadau yn y gêm er mwyn creu ei fyd ei hun a disgrifia'r PS4 fel lle iddo gael disgleirio a llwyddo mewn bywyd.

- Ar goll yn nigwyddiadau'r gêm, daw llais ei fam i darfu ar rediad y chwarae ac i'w atgoffa o fywyd bob dydd y teulu, ond dewis ei hanwybyddu a wna.

- Er gwaethaf ymateb y teulu, mae'r gêm yn parhau a chawn yr argraff erbyn y pennill olaf fod yr unigolyn wedi ei rwydo'n llwyr i fyd y gêm ac nad yw'n dewis nac yn dymuno rhyddhau ei hun ohoni.



© WJEC CBAC Cyf.

**Pwyntiau Cymharu**

- Mae lleoliadau gwahanol i'r ddwy gerdd sef clinig rehab ac ystafell wely. Ond mae'r ddau lefarydd yn mynd yno ar eu pen eu hunain – y naill o raid a'r llall o ddewis.

- Does dim cyswllt â theulu a ffrindiau a'r byd y tu allan gan yr un o'r ddau.

- Mae'r llefarydd yn Gêm yn mwynhau'r profiad yma ac yn edrych ymlaen at gael dianc o'r byd ar y tu allan, tra mae'r 'druggie' yn Gweld y Gorwel yn bodoli yn y clinig er mwyn cyrraedd y nod o wella.

- Hunanoldeb yw sail bywyd y ddau yn y ddwy gerdd. Disgrifia un ei 'daith hunanol' ac mae'r llall yn gwneud defnydd cyson o'r rhagenw 'fy' sy'n amlygu ei fodolaeth hunanol.

- Efallai fod tebygrwydd yn y 'label' yn Gweld y Gorwel a'r 'dewis fy wyneb' yn y Gêm – gan fod yr unigolyn yn colli neu'n newid ei hunaniaeth yn y ddwy sefyllfa.

- Erbyn diwedd cerdd Aneirin Karadog, mae trobwynt a gobaith am gael gadael y clinig rehab a chyfarfod y ferch unwaith eto – "melysa". Ond yng ngherdd Gwil Tomos, does dim bwriad gadael ac mae'n ymddangos fel pe bai'r unigolyn yn mynd yn fwyfwy caeth i'r sefyllfa – "sownd".

- Mae'r naill gerdd ar fesur caeth yr englyn penfyr a hynny'n gweddu i gaethiwed y cyffur a rheolau llym y clinig rehab. Ond ar y llaw arall, mae'r ail gerdd ar fesur rhydd mewn mydr ac odl. Mae'r odlau a'r goferu ystyr yn y gerdd yn gweithio er mwyn dangos sut mae'r gemio yn mynd yn ei flaen mor rhwydd a'r unigolyn yn cael ei ddal yn y patrwm hwn.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull: Gweld y Gorwel: rhai pwyntiau**

- Bratiaith – “rehab”, “druggie”
- Ansoddeiriau – “diddarfod”, “hunanol”
- Ailadordd – “bod”
- Cynghanedd – “yn nheilchion ergydion ei gawdel”
- Cyferbyniad – “diflasa” / “melysa”
- Mesur – englynion penfyr – caeth.

**Arddull: Gêm: rhai pwyntiau**

- Bratiaith – “gêm”; swits”; “sgôr”
- Ailadrodd – “dewis”, “bell, bell”
- Rhagenw – “fy”
- Trosiad – “fy llwyfan fy hunan”; “a’r nos yn cau”
- Mesur – mydr ac odl - rhydd

**Neges:**

**Gweld y Gorwel:** Does yr un sefyllfa’n amhosibl dianc ohoni, dim ond i chi gael gobaith a chariad i’ch cymell i wella. Gall y ddau beth hyn drechu’r sefyllfa dywyllaf un ac mae’r bardd am i ni ddal gafael yn y gorwel ac anelu amdano bob amser.

**Gêm:** Cerdd syml sy’n dangos mor rhwydd yw mynd i rigol a fydd efallai’n anodd dod ohono os ydym yn dewis cau pobl eraill allan o’n bywydau. Nid byd real yw byd gemau cyfrifiadurol mewn gwirionedd ac mae angen cadw golwg ar y bobl a’r pethau go iawn o’n cwmpas.


© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **21-30** | • Dangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Ymgais i ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos peth ymateb personol<br>• Defnyddio dyfyniadau addas<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | • Ymgais i ddangos dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Ymgais i drafod addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Peth ymgais i gymharu testunau<br>• *Dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>• *Peth gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir* |
| **0-10** | • Ymgais i ddangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Cyfeirio at arddull/iaith i greu awyrgylch<br>• Dechrau ymateb yn bersonol<br>• Ymgais i ddefnyddio ambell ddyfyniad<br>• *Ymgais at ddilyniant*<br>• *Gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.